

Gweithio gyda'n gilydd i wella <mark>llesiant</mark> yn Abertawe

Cynllun Llesiant Lleol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe **2023-2028**



Cynnwys

Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	2
Sut rydym ni'n gweithio	3
Llesiant yn Abertawe	5
Cynnydd	8
Y blynyddoedd cynnar	10
Byw'n dda, heneiddio'n dda	14
Y newid yn yr hinsawdd ac adferiad byd natur	18
Cymunedau cryf	22
Y Camau	26
Atodiad I: Creu'r Cysylltiadau	30
Atodiad II: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	31
Atodiad III: Sut mae'r cynllun wedi datblygu	32
Geirfa	38

NEGES GAN

Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Bu'n 5 mlynedd ers lansio Cynllun Llesiant Lleol cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, a gwnaed cynnydd go iawn trwy gydweithio er mwyn gwella llesiant. Ers dechrau ein sgwrs am lesiant yn Abertawe a gosod amcanion hirdymor 2040, mae llawer wedi newid.

Cynhaliom Asesiad o Les Lleol yn 2022, a edrychodd ar ymchwil ac adborth gan y cyhoedd am lesiant yn Abertawe. Er gwaethaf effeithiau digynsail Covid 19, Brexit, rhyfel yn Wcráin, ymddangosiad effeithiau gwirioneddol y newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng byd natur a'r argyfwng costau byw cynyddol, darganfu'r Asesiad fod ein dyheadau tymor hir ar gyfer llesiant yn berthnasol o hyd. Ac fel yn 2022, mae'r dystiolaeth yn glir fod systemau a modelau economaidd a chymdeithasol sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ar draws ein gwaith llesiant yn parhau i'n herio ni. Mae hyn yn awgrymu bod angen i ni fynd i'r afael â heriau uniongyrchol a thymor hwy; os byddwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol yn unig, byddant yn parhau i ailddigwydd. Mae'r camau penodol y mae angen i ni eu cymryd a'r ffordd y byddwn yn eu cymryd yr un mor bwysig.

Yn Abertawe, rydym yn parhau i gredu yn hawliau pob person. Ein gweledigaeth yw cydweithio i wneud Abertawe yn fan llewyrchus, lle caiff ein hamgylchedd naturiol ei werthfawrogi a'i gynnal, a lle y gall pob unigolyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, cael swydd dda, byw'n dda, heneiddio'n dda, cael at gyfleoedd diwylliannol a chael pob cyfle i fod yn iach, yn hapus, yn ddiogel a bod y gorau y gall fod. Mae gwrando ar bobl yn dweud wrthym fod Abertawe yn lle gwych i fyw, ond mae angen i ni gydweithio'n galetach i wneud yn siŵr y gall pawb fyw'n dda, elwa o Abertawe a bod yn falch ohoni.

Rydym am adeiladu ar lwyddiannau hyd yn hyn felly rydym wedi diweddaru ein hamcanion tymor hir presennol. Bydd y parhad strategol hwn yn ein helpu i ganolbwyntio ar y gweithredu ar y cyd angenrheidiol i wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywyd unigolion.



Y BLYNYDDOEDD CYNNAR:

Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod.



Y NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFERIAD BYD NATUR:

Adfer a gwella bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith.



BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA:

Gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw, ym mhob cam bywyd.



CYMUNEDAU CRYF:

Adeiladu cymunedau cydlynus a chydnerth gydag ymdeimlad o falchder a pherthyn.

Sut rydym ni'n gweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn gofyn bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus Cymru yn cydweithio tuag at saith nod llesiant cyffredin gan ddefnyddio pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. Mae'r dull hwn wrth wraidd popeth a wnawn.

Pum ffordd o weithio:



YR HIRDYMOR: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



ATAL: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



INTEGREIDDIO: Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



CYDWEITHIO: Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



CYNNWYS: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Saith nod llesiant				
Nod Disgrifiad o'r Nod				
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gwaith addas.			
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).			
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.			
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).			
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.			
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.			
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.			

Llesiant yn Abertawe

Abertawe yw ail ddinas fwyaf Cymru, gyda phoblogaeth (dinas a sir) o 238,500 (Cyfrifiad 2021). Mae twf ym mhoblogaeth Abertawe, a gwelliannau i ddisgwyliad oes, wedi sefydlogi yn ddiweddar, ac (fel ym mannau eraill) mae ein poblogaeth yn heneiddio.

Fodd bynnag, bydd gwybodaeth fanylach o'r Cyfrifiad yn gwella ein dealltwriaeth o newid diweddar yn Abertawe. Mae effaith y pandemig wedi llywio bywyd yn Abertawe am lawer o'r tair blynedd diwethaf, gyda thros 800 o farwolaethau cofrestredig yn Abertawe yn ymwneud â Covid-19 (erbyn Mai 2022); ac ni ddeellir y costau parhaus i iechyd emosiynol, corfforol ac iechyd meddwl yn llawn o hyd. Gweithiodd gwasanaethau cyhoeddus a'n trigolion ynghyd i ateb yr her hon trwy raglen frechu lwyddiannus sy'n mynd rhagddi, rhoi cynlluniau adfywio ac adfer ar waith a gweithgarwch gwirfoddoli a gweithredu cymunedol ffurfiol ac anffurfiol sy'n parhau.

Mae Abertawe yn lle deniadol i weithio ynddo ac ymweld ag ef, gyda llawer o bobl yn teithio i wneud y ddau. Dyma un o siroedd mwyaf cyfoethog Cymru yn ecolegol, ond mae llawer o fygythiadau i'n hadnoddau naturiol, sy'n dirywio, ac ardaloedd o ansawdd amgylcheddol gwael y mae angen eu gwella. Bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyfwy ar gymunedau, busnesau a seilwaith ledled Abertawe. Mae gan Abertawe gyfran uchel o bobl â chymwysterau lefel uwch ac mae'n gartref i niferoedd mawr o fyfyrwyr. Er bod cyfanswm y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng, mae nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynyddu. Ochr yn ochr â hyn, bu datblygiadau yn y cynnig diwylliannol yn y ddinas, gan gynnwys amrywiaeth eang o ddigwyddiadau amrywiol ac agor Arena Abertawe.



Gan edrych tua'r dyfodol, mae Cymru yn wlad sy'n newid ac mae Abertawe yn newid hefyd, a bydd wedi'i chreu fwyfwy o bobl o gefndiroedd gwahanol a nodweddion gwarchodedig. Mae nifer gyfartalog y bobl mewn aelwyd yn disgyn, gyda mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain nag o'r blaen. Mae'r mathau o swyddi sydd gan bobl yn newid, gyda datblygiadau mewn technoleg, mwy a mwy o awtomeiddio a newidiadau i iechyd a gofal cymdeithasol. Yn Abertawe, mae angen i ni ddeall yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw gyda'r newidiadau hyn.

Hefyd, mae ein Hasesiad diweddaraf o Les Lleol wedi dweud nifer o bethau wrthym am Abertawe:

Llesiant cymdeithasol: Mae profiadau bywyd pobl yn wahanol iawn rhwng ein cymunedau tlotaf a chyfoethocaf, gydag arwyddion o anghydraddoldeb cynyddol o ran addysg, cyflogaeth, hyfforddiant, incwm, canlyniadau iechyd, mynediad at wasanaethau a chyfleoedd eraill mewn bywyd. Gall y penderfynyddion cymdeithasol hyn effeithio'n anghyfartal ar allu pobl i fyw bywyd iach a hapus a gallant arwain at anghydraddoldebau iechyd cyson. Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, mae heriau lluosog yn parhau o ran y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, camddefnyddio sylweddau, tai a diogelwch cymunedol; ac mae'r pandemig wedi effeithio'n benodol ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant, pobl hŷn a chymunedau pobl dduon ac ethnig lleiafrifol.

Yr economi: Mae llawer o waith yn mynd rhagddo'n barod i helpu tyfu economi a seilwaith Abertawe, gyda datblygiadau i ddenu ymwelwyr newydd â'r ddinas, a chreu cyfleoedd gwario a chyflenwi newydd i fusnesau ac, yn ei dro, gwella llesiant economaidd trigolion. Fodd bynnag, mae mesurau perfformiad economaidd, cynhyrchedd, cyflogaeth a busnes lleol yn awgrymu darlun cymysg. Bydd angen i'n dull yn y dyfodol integreiddio ein gwaith economaidd ag ystyriaethau hinsawdd ac amgylcheddol yn well er mwyn cyflawni canlyniadau ehangach a sut rydym yn cynllunio ein dyfodol economaidd.

Yr amgylchedd: Mae datgan argyfyngau hinsawdd a byd natur, ynghyd ag ymrwymiadau polisi 'sero net' lleol a chenedlaethol, yn dangos yr heriau lluosog a brys sy'n wynebu amgylchedd Abertawe; er enghraifft dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau; pwysau ar adnoddau dŵr; mwy o risg llifogydd; cystadleuaeth rhwng priddoedd, y defnydd ar dir a chynhyrchu bwyd; buddion lluosog seilwaith gwyrdd; effeithiau ansawdd aer ar iechyd; cyfleoedd am gludiant llesol a chynaliadwy; gwella'r rheolaeth ar wastraff a lleihau gwastraff, a chynhyrchu a diogelwch ynni. Y neges glir o adroddiad Cyflwr Ein Hadnoddau Naturiol yw bod angen trawsnewid helaeth yn y systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth a fydd yn gofyn i bob un ohonom ni wneud newidiadau i'r ffordd rydym ni'n byw.

Diwylliant: Mae cynnig diwylliannol Abertawe (gan gynnwys twristiaeth) yn gryf o ran amrywiaeth ac ystod, ond cafodd y sector a'r gymuned y mae'n eu gwasanaethau eu taro'n galed gan y cau dros dro yn ystod cyfnodau clo'r pandemig. Ymatebodd y sector trwy ddefnyddio mannau awyr agored cymaint â phosibl ac mae arwyddion o adfer i'w gweld erbyn hyn oherwydd cymorth sectoraidd gan y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae cyfleusterau natur, chwaraeon, hamdden a diwylliant yn cynnig buddion hanfodol i gymunedau lleol o ran iechyd a llesiant. Mae carfan dda o wirfoddolwyr lleol ar draws gweithgareddau, yn amrywio o Gyfeillion Parciau, Clybiau Chwaraeon ac Adeiladau Cymunedol, ond gyda phroffil sy'n heneiddio.

Partneriaethau gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn gweithio tuag at lesiant yn Abertawe



- Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru
- Bwrdd Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Adfywio Abertawe
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Dinasoedd lach
- Fforwm Tai Rhanbarthol
- Partneriaeth Abertawe Ddiogelach
- Fforwm Partneriaeth Tlodi
- Grŵp Llywio Dinas Hawliau Dynol

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg a Chlystyrau Gofal Sylfaenol yn gynyddol
- Partneriaeth (Partneriaeth gwella addysgol)
- Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- · Cydweithfa ranbarthol ar gyfer iechyd
- Grwp Llywio Hawliau Plant
- Fforwm Amgylcheddol Abertawe
- Partneriaeth Natur Leol Abertawe

Nod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yw cefnogi a helpu'r partneriaethau hyn i ffynnu ac elwa o ystyried pob dimensiwn ar lesiant ehangach. Bydd nodi cyfrifoldebau'n glir ac osgoi dyblygu llywodraethiant yn galluogi canolbwyntio adnoddau lle y caiff gwerth ei ychwanegu a lle mae'r gweithgareddau'n gweddu orau.

Rydym wedi llunio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, sy'n mynd i'r afael â materion penodol sy'n elwa o ddull rhanbarthol, fel camddefnyddio sylweddau. **Bydd y gwaith hwn yn parhau.**

Crynodeb o gynnydd tuag at ein hamcanion

Mae camau a gymerwyd tuag at ein hamcanion wedi arwain at y cyflawniadau allweddol canlynol hyd yn hyn:

Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

- Ymuno â chydweithrediad y 100 Diwrnod Cyntaf. Gwreiddiwyd gwaith yng nghydweithrediad Braenaru Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar
- Gwreiddio ffyrdd o weithio yn y dull Braenaru a phrosiectau fel Jig So, Hybiau Cymorth Cynnar Dechrau Gorau Abertawe, Tîm Cymorth Cynnar y Blynyddoedd Cynnar
- Helpodd Adolygiad Systemau Vanguard cydweithrediad Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar i ystyried 'Beth sy'n bwysig i bobl'.
 Mae archwilio integreiddio systemau a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ymhellach yn parhau, trwy becyn cymorth yr Early Intervention Foundation, a Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth y Blynyddoedd Cynnar
- Mae ymyriadau'n dechrau cael eu gwneud yn gynt yn ystod bywyd trwy wasanaethau ataliol traws-asiantaeth, fel Dechrau'n Deg. Mae rhaglenni'n cynnwys ymestyn Dechrau'n Deg, integreiddio gwasanaethau fel Jigso o fewn gwasanaethau cymdeithasol, ac archwilio cymorth laith a Lleferydd gwych.

BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA

- Cymunedau ystyriol o ddementia a phrosiectau Cenedlaethau ystyriol o ddementia, technolegau dymuniadau diwedd oes e.e. byrddau hud
- Cyflwyno Llyfryn Cysylltiadau a hyfforddiant ar draws partneriaid, llunio cyfeiriadur gwasanaethau ôl-Covid
- Mae Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda wedi datblygu gweithgareddau anffurfiol i aelodau 50 a hŷn sy'n cysylltu ac yn meithrin cydnerthedd
- Mae systemau atgyfeirio yn eu lle ac adolygiadau o dechnoleg gynorthwyol
- 'Sgyrsiau mawr' newid diwylliant rhwng y cenedlaethau, rhwng plant ysgolion cynradd ac uwchradd ac aelodau heneiddio'n dda.

GWEITHIO GYDA BYD NATUR

- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i Ganol y Ddinas wedi'i llunio, ei mabwysiadu a'i defnyddio'n weithgar ar y cyd gan bartneriaid; gweithredu prosiect Mannau Gwyrdd
- Mentrau fel strimynnau atal tân ar Fynydd Cilfái
- Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu ymrwymiadau trwy Adduned yr Hinsawdd ac Adfer Byd Natur Abertawe a lansio Siarter Teithio Cynaliadwy Bae Abertawe
- Cyfres o ddigwyddiadau, anerchiadau a chynadleddau poblogaidd yn arwain at weithredu.

CYMUNEDAU CRYF

- Ymagwedd seiliedig ar asedau, dan arweiniad y gymuned at weithredu gan Grŵp Digwyddiadau Critigol y Stryd Fawr, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Castell-nedd a Phort Talbot, ar gamddefnyddio sylweddau
- Cyflawni Statws Dinas Rhyngddiwylliannol
- Comisiwn Gwirionedd Tlodi
- Cynllun Gweithredu ar Adferiad Economaidd Adfer Abertawe.

RHANNU AR GYFER ABERTAWE (cam gweithredu trawsbynciol)

- Cwblhaodd arweinwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus raglen 'cerdded yn ein hesgidiau', i ddeall eu busnes ei gilydd.
- Cymerodd bartneriaid ran ym Mwrdd Eiddo Lleol Abertawe ac maent wedi cydweithredu ar weithgarwch hyb.
- Sefydlwyd rhwydwaith cyd-gynhyrchu Abertawe.
- Mae peilotiaid cyflawni ar y cyd yn cynnwys datblygu Rhwydwaith Cydlynwyr Ardal Leol
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi addo ei fod yn bwriadu yn ddinas hawliau dynol ynghyd ag unigolion a phartneriaid. Mae'r gwaith hyd yn hyn yn cynnwys cynhyrchu canllaw poced.

Gwnaed cynnydd gwirioneddol wrth gymryd camau tuag at ein hamcanion llesiant ers 2018 ond mae mwy o waith gennym i'w wneud o hyd. Er bod effaith y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar gyflwyno'r cynllun yn y blynyddoedd diwethaf, darparodd y perthnasoedd a ddatblygwyd trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sylfaen gadarn ar gyfer ymateb cydweithredol, integredig i argyfwng Covid 19.

Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweithio, a byddant yn parhau i weithio, yn unol â'r ymrwymiadau cytunedig y mae'r partneriaid wedi'u llofnodi. Mae'r ymrwymiadau hyn yn mynd y tu hwnt i'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan yr amrywiol sefydliadau a chânt eu hadolygu gan gyfrif am gyngor gan Gomisiynwyr Cymru. Cymru lach, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), Cydweithrediad y 1000 Diwrnod Cyntaf, Dinasoedd a Chymunedau Oed Gyfeillgar, yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Un Sector Cyhoeddus, Abertawe'n Ddinas Hawliau Dynol, Siarter Teithio Llesol Bae Abertawe ac ati. Yn ogystal, mae partneriaid yn glynu at eu 'safonau sefydliadol yn gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg' a'r Cynnig Cymraeg, yn unol â chyngor Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r ymrwymiadau hyn wrth wraidd ein Hamcanion Llesiant Lleol ac yn parhau'n ychwanegol at weithgarwch ar ein Hamcanion Llesiant Lleol.

Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Llesiant Lleol a'u diweddaru yn unol â chanfyddiadau ein Hasesiad diweddaraf o Les Lleol. Nod ein pedwar amcan yw gwella llesiant gyda ffocws ar 2040. Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu beth mae pob amcan yn anelu at ei gyflawni, pa amodau y mae eu hangen er mwyn i hynny digwydd a sut mae cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant cenedlaethol a defnyddio'r pum ffordd o weithio.



1. Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Sicrhau bod gan blant yn Abertawe y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod.



Os bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, maent yn debygol o fod yn iachach, yn fwy tebygol o fod yn ddysgwyr gwell ac yn llai tebygol o gael profiad o amddifadedd pan fyddant yn oedolion. Mae profiadau cadarnhaol y Blynyddoedd Cynnar yn arwain at fwy o debygolrwydd o gael swydd dda a safon byw gwell, a mwy o allu i ofalu am yr amgylchedd a chyfrannu at gymunedau diogel a llewyrchus (am ragor o wybodaeth, gweler Adolygiadau Marmot ac Adroddiad Amser am Newid: Tlodi yng Nghymru).

Mae hyn yn digwydd pan...

Rhieni a theuluoedd wedi paratoi'n dda ar gyfer geni plentyn a phlentyndod cynnar

Pob plentyn yn datblygu i'w botensial llawn

Gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel ac wedi'u hintegreiddio'n dda

Mae plant yn ddiogel rhag niwed ac yn cael eu cefnogi ar y cyfle cynharaf

Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn Abertawe yn cynnwys dull system gyfan:

- Hyrwyddo negeseuon a gwybodaeth bwysig i bawb.
- Gwella gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar i bawb trwy ddarpariaeth ymyrraeth gynnar sydd ar gael i ddarpar rieni/gofalwyr a phlant ifanc i sicrhau bod sylfeini cadarn ar waith ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol.
- Ymwybyddiaeth o drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a sut i gefnogi a meithrin cydnerthedd.
- Ychwanegu gwerth at wasanaethau i bawb a gwasanaethau ymyrraeth gynnar trwy ymgysylltu â gwasanaethau a sefydliadau ehangach, a'u cynnwys, i hyrwyddo, cyfeirio, cydgynllunio a chyflwyno cymorth a gweithgareddau yn y gymuned.

Trwy ddefnyddio tystiolaeth o'n Hasesiad o Les Lleol, mae'r diagram hwn yn nodi'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod:

Deilliant (Amcan):

Prif Yrrwr (pryd):

Gyrwyr Eilaidd (felly mae angen i ni):

Mae rhieni/gofalwyr wedi paratoi'n dda ar gyfer geni plentyn



Cefnogir rhieni/gofalwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder, a gallant gael at y wybodaeth y mae ei hangen arnynt

Mae rhieni/gofalwyr yn byw'n iach a gallant gael at eu hamgylchedd lleol a naturiol


Mae cyflogaeth dda ar gael i rieni/gofalwyr

Mae teuluoedd yn byw mewn tai o safon dda

Mae teuluoedd yn mwynhau perthnasoedd teuluol iach

Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod





Mae plant yn datblygu ymlyniadau cadarnhaol da gyda'u rhieni/gofalwyr*

Caiff plant ag anghenion ychwanegol eu nodi a'u cefnogi Mae gan blant iechyd a llesiant corfforol a meddyliol o ansawdd da Mae plant yn datblygu iaith, lleferydd a chyfathrebu yn llwyddiannus Mae plant yn gallu cael at dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol

Mae plant yn ddiogel rhag niwed ac yn cael eu cefnogi ar y cyfle cyntaf



Caiff anghenion plant eu nodi a'u cefnogi ar y cyfle cyntaf Mae cartrefi a chymdogaethau'n ddiogel ac yn rhydd rhag trais,

Mae cartrefi a chymdogaethau'n ddiogel ac yn rhydd rhag trais, troseddu a chamdriniaeth

Caiff plant eu hamddiffyn rhag risgiau amgylcheddol, fel llygredd aer Caiff plant eu hamddiffyn rhag Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chânt gymorth pan fydd angen

Mae gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel ac wedi'u hintegreiddio'n dda, ac maent yn hygyrch i bawb, heb eithrio unrhyw blentyn



Caiff gwasanaethau eu trefnu a'u blaenoriaethu i gefnogi iechyd meddwl rhieni/gofalwyr a mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol/ cyffuriau

Mae cyfathrebu a chydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau yn gryf er mwyn cyflwyno gwasanaethau hygyrch, amserol nad ydynt yn allgau neb

Mae rhannu data a gwybodaeth rhwng gwasanaethau yn effeithiol

^{*} Gan gydnabod y gall plant a rhieni fod yn ofalwyr a gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt


Sut byddwn yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at lesiant



Bydd sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn gwella llesiant cymdeithasol ac economaidd Abertawe. Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant trwy ganolbwyntio ar adeiladu Abertawe iachach, fwy llewyrchus, cyfartal a chydlynus.

	Abertawe lewyrchus	Abertawe gydnerth	Abertawe iachach
Yr effaith ar y saith nod llesiant cenedlaethol	Cefnogir rhieni i allu gweithio a hyfforddi	Mae plant yn dysgu sut i ymgysylltu â byd natur a dechrau perthynas gydol oes â byd natur	Mae plant yn dysgu am bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach, a chefnogir rhieni i'w helpu nhw a'u plant i fod yn iach
Abertawe sy'n fwy cyfartal	Abertawe o gymunedau cydlynus	Abertawe â diwylliant a Chymraeg fywiog	Abertawe sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae gwasanaethau'n cefnogi teuluoedd gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau ledled Abertawe	Mae plant a theuluoedd yn rhan weithgar o'u cymuned	Rhoddir digonedd o gyfleoedd i blant a'u teuluoedd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant a thraddodiadau Cymru trwy amrywiaeth o weithgareddau ac ymdeimlad o gynefin	Mae plant yn dysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang ac yn cymhwyso hyn trwy gydol bywyd, gan gynnwys dealltwriaeth o'r argyfyngau hinsawdd a natur

Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i alluogi'r nod llesiant hwn i gael ei gyflawni:



2. BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA

Gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw ym mhob cam bywyd.



Rydym am gefnogi pawb i heneiddio'n dda a bod yn ddiogel, yn iach, yn annibynnol ac yn gydnerth er mwyn gallu cyrraedd eu potensial llawn. I gyflawni hyn, mae angen i ni gefnogi pobl trwy gydol eu bywyd i gael gafael ar swyddi o ansawdd da, cael digon o arian i fyw arno, gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw a chadw'n iach, cael cartrefi diogel, o ansawdd da, gallu cael at fannau gwyrdd / glas naturiol yn hawdd a chael y gallu i wneud penderfyniadau sy'n eu galluogi nhw i ffynnu. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ddatblygiad llawer o blant a phobl ifanc a chafodd Covid 19 effeithiau amrywiol ar bobl o bob oed a chefndir. Er bod mwy o bobl yn Abertawe yn byw'n hirach, nid yw ansawdd bywyd boddhaus bob amser yn cyd-fynd â hyn.

Mae hyn yn digwydd pan...

Pobl mor annibynnol â phosibl ac yn mwynhau ansawdd bywyd da

Pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref a'u cymuned

Gan bobl y lefel orau bosibl o iechyd a llesiant

Pobl yn cael eu gwerthfawrogi, gwrandewir arnynt a gallant gymryd rheolaeth ar eu bywyd

Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn dechrau effeithio ar fywyd pobl a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu. Mae angen i ni wneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau bod pobl yn mwynhau ffordd weithgar o fyw wrth i'r boblogaeth heneiddio. Gwyddom fod gwahaniaethau mawr yn parhau rhwng ein cymunedau tlotaf a chyfoethocaf.

Trwy ddefnyddio tystiolaeth o'n Hasesiad o Les Lleol, mae'r diagram hwn yn nodi beth sydd ei angen i sicrhau bod pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda ym mhob cam bywyd:

Deilliant (Amcan):

Prif Yrrwr (pryd):

Gyrwyr Eilaidd (felly mae angen i ni):

Mae gan bobl y lefel orau bosibl o iechyd a llesiant



Mynediad at adnoddau, gwybodaeth a sgiliau ar gyfer byw'n iach Caiff negeseuon iechyd a llesiant allweddol eu nodi, eu targedu a'u hyrwyddo

Mae pob unigolyn yn gallu cael at gyfleoedd a gwasanaethau iechyd a llesiant

Caiff amgylcheddau naturiol ac adeiledig sy'n annog iechyd a llesiant eu creu a'u cynnal

Caiff pobl gymorth i gael at wybodaeth, cyngor a chymorth

BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA

Gwneud Abertawe yn lle gwych i fyw ym mhob cam bywyd



Mae pobl yn rhydd rhag tlodi, mor annibynnol â phosibl ac yn mwynhau ansawdd bywyd da



Mae gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned

Cefnogir pobl i ddysgu, gweithio a byw'n dda

Cefnogir unigolion a chymunedau i fod yn fwy cysylltiedig

Caiff pobl eu diogelu rhag tlodi a'u cefnogi rhag effeithiau tlodi

Darperir cyngor a chymorth i helpu pobl i helpu eu hunain

Mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi, gwrandewir arnynt a gallant gael llais, dewis a rheolaeth



Mae pobl yn gallu cael at ofal a chymorth mewn ffyrdd sy'n addas iddynt ac sy'n eu cynorthwyo i helpu eu hunain

Caiff Ymagwedd Dinas Hawliau Dynol ei hyrwyddo i sicrhau bod pobl yn deall eu hawliau a'u bod yn cael eu cydnabod

Trwy fecanweithiau hygyrch, caiff lleisiau pobl eu clywed ac maent yn cymryd rhan mewn prosesau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywyd


Mae pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref a'u cymuned



Mae pobl yn byw mewn tai diogel, o ansawdd da

Caiff amgylcheddau sy'n helpu pobl i deimlo'n ddiogel a bod yn
ddiogel eu creu, eu cynnal a'u hamddiffyn

Sut byddwn yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at lesiant



Bydd cynorthwyo pobl i Fyw'n Dda a Heneiddio'n Dda yn cyfrannu at y nodau llesiant trwy ganolbwyntio ar adeiladu Abertawe Iachach, mwy llewyrchus, mwy cyfartal, mwy cydlynus.

	Abertawe lewyrchus	Abertawe gydnerth	Abertawe iachach
Yr effaith ar y saith nod llesiant cenedlaethol	Mae pobl yn datblygu hyder, sgiliau a galluoedd i gymryd rhan yn yr economi sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol	Mae plant ac oedolion yn cysylltu â'u mannau adeiledig a naturiol lleol ac yn cael eu gwarchod rhag risg amgylcheddol.	Gwneir y mwyaf o iechyd meddwl ac iechyd corfforol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig
Abertawe sy'n fwy cyfartal	Abertawe o gymunedau cydlynus	Abertawe â diwylliant a Chymraeg fywiog	Abertawe sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae pobl yn cael cyfleoedd i gysylltu a chyflawni eu potensial ym mhob cam bywyd	Mae cyfleoedd rhwng y cenedlaethau, ar draws cyfnodau bywyd, yn adeiladu diwylliant cydlynus	Mae pobl yn trosglwyddo'u hieithoedd a'u traddodiadau ar o genhedlaeth i genhedlaeth	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Abertawe gyfeillgar i oed, a Dinas Noddfa

Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i alluogi'r nod llesiant hwn i gael ei gyflawni:

ATAL

Cefnogi pobl i feithrin cryfder, annibyniaeth a chydnerthedd trwy gydol cwrs bywyd

YR HIRDYMOR

Ymyriadau cynnar i wneud y mwyaf o iechyd a llesiant tymor hwy

BYW'N DDA,

HENEIDDIO'N DDA

INTEGREIDDIO

Gweithlu rheng flaen mwy integredig, sy'n rhoi'r cymorth cywir i bobl ar yr adeg cywir

CYDWEITHIO

Rhannu arfer gorau, sgiliau a phrofiad a chael cryfder cyfunol i fynd i'r afael â materion allweddol

CYNNWYS

Datblygu gweithgareddau ymwneud cadarn ac integredig a gwneud y defnydd gorau o fecanweithiau presennol

3. Y NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFERIAD BYD NATUR

I adfer a gwella bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith.



Mae amgylchedd naturiol sy'n ffynnu yn cynnig llawer o fuddion i gymdeithas, gan wella llesiant a ffyniant economaidd cynaliadwy ar draws y sir. Mae rhwydwaith Abertawe o dirweddau a chynefinoedd bywyd gwyllt amrywiol a deniadol, gan gynnwys ei harfordir, ei huwchdiroedd, ei choetiroedd, ei hafonydd a'i gwlypdiroedd, a'i pharciau a'i gerddi trefol, yn ei gwneud yn un o'r siroedd gwyrddaf yn y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o agweddau ar ein hamgylchedd naturiol yn dirywio ac nid oes cymaint o allu ganddynt i wrthsefyll newid ag y byddem yn ei ddymuno er mwyn iddynt ddarparu'r buddion niferus sy'n cefnogi ein llesiant, heddiw ac yfory.

Mae hyn yn digwydd pan...

Digonedd o adnoddau naturiol gennym rydym yn eu diogelu

Bioamrywiaeth yn cael ei hadfer a'i gwella

Mannau iach yn cael eu creu i bobl

Economi gennym sy'n gynaliadwy ac yn atgynhyrchiol

Mae llywodraeth genedlaethol a lleol wedi datgan argyfyngau hinsawdd a natur; mae angen i ni roi'r gorau i gymryd mantais ar fyd natur a symud i sefyllfa lle'r ydym yn gweithio gyda byd natur ac yn ei adfywio er budd pawb. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a welir yn adroddiad **'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol'**. Mae hyn yn golygu rhoi'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn ganolog i benderfyniadau.

Trwy ddefnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Les Lleol, mae'r diagram hwn yn nodi'r hyn y mae ei angen i wella iechyd, gwella bioamrywiaeth a lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd:

Deilliant (Amcan):

Prif Yrrwr (pryd):

Gyrwyr Eilaidd (felly mae angen i ni):

Caiff bioamrywiaeth ei hadfer a'i gwella



Sicrhau bod cysylltiadau gwell rhwng cynefinoedd a bod safleoedd a rhywogaethau agored i niwed yn cael eu gwarchod a'u cyflwr yn cael ei wella Cefnogi ac amddiffyn rhywogaethau a phoblogaethau sy'n peillio Atal llygredd, mynd i'r afael â throseddu amgylcheddol ac effeithiau negyddol rhywogaethau, plâu a chlefydau anfrodorol (fel clefyd (Chalara) coed ynn)

Mae systemau naturiol yn iach ac yn gydnerth



Sicrhau bod y mwyaf yn cael ei wneud o fuddion seilwaith gwyrdd a glas i iechyd a'u buddion niferus eraill mewn ardaloedd trefol a gwledig, a bod mannau naturiol da o fewn cyrraedd pawb

Gwella ansawdd aer, gwneud ecosystemau yn fwy cydnerth a rheoli dŵr ar sail dalgylch, mewn ffordd sy'n cynnwys cymunedau lleol

Defnyddio tir mewn ffordd gytbwys sy'n diogelu priddoedd, yn gwneud lle i natur ac sy'n yn cefnogi tyfu bwyd a chynhyrchu ynni yn lleol

Caiff ein hallyriadau carbon eu gostwng i sero net ac mae unigolion, cymunedau a sefydliadau wedi'u paratoi'n dda ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu.



Lleihau'r defnydd o ynni yn ein cartrefi, adeiladau a busnesau a chefnogi cynhyrchu ynni lleol yn gynaliadwy

Hyrwyddo teithio llesol a datblygu system drafnidiaeth carbon isel sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn bodloni anghenion pawb

Deall risgiau ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn lleol yn well a pharatoi ar eu cyfer

Hyrwyddo arferion caffael moesegol ac amgylcheddol gynaliadwy, yn enwedig yn y sector cyhoeddus

Eir i'r achos ag achosion sylfaenol cynhyrchu a defnyddio adnoddau naturiol yn anghynaliadwy, trwy wybodaeth a newid ymddygiad



Cynyddu cyfleoedd hyfforddi a chreu swyddi gwyrdd i gefnogi'r pontio i economi gylchol, carbon isel, a lleihau/ailddefnyddio/ailgylchu deunyddiau yn effeithlon.


Casglu, dadansoddi a rhannu data a gwybodaeth amgylcheddol yn well i lywio penderfyniadau'n well

Ceisio / annog atebion seiliedig ar fyd natur i wella llesiant

Y NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFERIAD BYD NATUR

Adfer a gwella bioamrywiaeth, mynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effaith

Sut byddwn yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at lesiant



Bydd gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac adferiad byd natur yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Abertawe. Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant trwy ganolbwyntio ar adeiladu Abertawe iachach, fwy llewyrchus, cydnerth, mwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang.

	Abertawe lewyrchus	Abertawe gydnerth	Abertawe iachach
Yr effaith ar y saith nod llesiant cenedlaethol	Economi atgynhyrchiol, gylchol, sy'n hyfforddi pobl ar gyfer swyddi gwyrdd y dyfodol	Abertawe fwy bioamrywiol, sy'n rhoi pwys ar fyd natur ac yn gwarchod rhywogaethau a'u cynefinoedd, a darparu buddion lluosog i gymunedau	Mae mannau gwyrdd naturiol o ansawdd da, llwybrau teithio llesol ac aer a dŵr glân sy'n cefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl o fewn cyrraedd pawb
Aboutous only functional	Abertawe o gymunedau	Abertawe â diwylliant a	Abertawe sy'n gyfrifol
Abertawe sy'n fwy cyfartal	cydlynus	Chymraeg fywiog	ar lefel fyd-eang

Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i alluogi'r nod llesiant hwn i gael ei gyflawni:

ATAL

Deall yr achosion wrth wraidd problemau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gweithio gyda byd natur i'w hatal – mae hyn hefyd yn cael ei alw'n atebion seiliedig ar natur

YR HIRDYMOR

Deall y tueddiadau hirdymor a chynllunio ar eu cyfer fel y gall pobl a byd natur addasu a gwella'u gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd



INTEGREIDDIO

Sicrhau bod yr argyfyngau hinsawdd a natur, a'r achosion sydd wrth eu gwraidd, yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob polisi, cynllun a gwasanaeth, ac y gwneir y mwyaf o fuddion gweithio gyda byd natur

CYDWEITHIO

Cydweithio i wneud y mwyaf o'r buddion a ddaw o fyd natur, a lliniaru ac addasu, yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

CYNNWYS

Gweithio gyda chymunedau a galluogi cymunedau i ddeall a gweithredu ynghylch yr argyfyngau hinsawdd a natur i gefnogi newid gweddnewidiol

4. CYMUNEDAU CRYF

Adeiladu cymunedau cydlynus a chydnerth gydag ymdeimlad o falchder a pherthyn.



Rydym am wneud Abertawe yn fan bywiog, cynhwysol a chroesawgar, lle y mae cyfleoedd ar gael yn gyfartal i bawb a lle y mae pawb yn teimlo'n wirioneddol falch i fyw, gweithio a chwarae yn Abertawe. I gyflawni hyn, mae angen i ni ddatblygu man lle y mae pobl yn perthyn, yn teimlo'n ddiogel a lle sy'n gwerthfawrogi ac yn rhoi pwys ar gefndir ac amgylchiadau pobl.

Mae ein cymunedau yn newid, rydym am ddysgu oddi wrth ein gilydd a chydweithio i adeiladu Abertawe well. Gwyddom fod perthnasoedd da yn elfen hanfodol o lesiant. Wrth i gymunedau newid, byddwn yn dathlu'r hyn sydd ganddynt yn gyffredin ac yn wynebu heriau gyda'n gilydd, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau rhag cyflogaeth, hyfforddiant, cyrhaeddiad addysgol, cynhwysiant a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae hyn yn digwydd pan...

Fydd gennym ymdeimlad o falchder a pherthynas

Fyddwn yn fwy cydlynus

Fyddwn yn llewyrchus

Fyddwn yn galluogi unigolion i ymddiried yn ei gilydd

Fyddwn yn cefnogi pobl i deimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel ac yn hyderus

Mae ein diwylliant, ein treftadaeth, ein chwaraeon, ein traddodiadau a'n gwerthoedd yn ein dwyn ynghyd

Gwyddom fod angen i ni gydweithio er mwyn deall problemau unigol a phroblemau cymunedau a llywio atebion ar sail profiadau bywyd. Mae angen i ni feithrin ffydd rhwng cymunedau a mudiadau lleol, gan roi llais i bobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd. Mae'n bwysig cefnogi a gweithio gyda phobl agored i niwed a grwpiau ar y cyrion yn gymdeithasol i helpu llywio gwasanaethau ataliol a meithrin cynhwysiant.

Trwy ddefnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Les Lleol, mae'r diagram yn nodi beth sydd ei angen i adeiladu cymunedau cryf, cydlynus:

Deilliant (Amcan):

Prif Yrrwr (pryd):

Gyrwyr Eilaidd (felly mae angen i ni):

Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac maent yn ddiogel, ac yn hyderus



Mae cyngor a chymorth ar gael ac yn cael eu darparu heb farnu

Mae cyrtrefi a chymdogaethau'n fannau iach a diogel i fod, heb neb yn camddefn

Caiff ymddiriedaeth ei meithrin rhwng pobl a sefydliadau

Mae cartrefi a chymdogaethau'n fannau iach a diogel i fod, heb neb yn camddefnyddio sylweddau

Mae diogelwch a llai o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y strydoedd yn cyfrannu at hyder y cyhoedd ac yn cryfhau'r economi

Mae dealltwriaeth gyffredin o anghenion aelodau agored i niwed o'r gymuned ac mae cydnerthedd cymunedau'n cael ei wella.

Dylai cyflogwyr dalu'r isafswm cyflog, o leiaf

Caiff swyddi da eu creu a chaiff pobl eu galluogi i oresgyn y rhwystrau rhag cael atynt

CYMUNEDAU CRYF

Cymunedau cydlynus a chydnerth gydag ymdeimlad o falchder a pherthyn Mae gennym economi leol lewyrchus lle mae aelwydydd yn ennill o leiaf y Safon Isafswm Incwm



Caiff pobl eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau ac ennill y cymwysterau y mae eu hangen arnynt i ddysgu gydol eu hoes

Mae pobl yn cael at yr holl gymorth ariannol y mae hawl ganddynt i'w gael

Mae cost nwyddau a gwasanaethau i bawb yn gyfartal, gan ddod â'r premiwm tlodi i ben

Lleihau'r rhwystrau rhag cymryd rhan ym mywyd y gymuned (e.e. Cynhwysiant Digidol, Cymraeg/Saesneg i siaradwyr ail iaith, seilwaith trafnidiaeth)

Mae cymunedau ac unigolion yn gysylltiedig



Gall pobl a chymunedau gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt trwy brosesau a mecanweithiau partneriaethau cymdeithasol, undebau llafur, democratiaeth gynrychiolaidd a democratiaeth gyfranogol


Mae cyfleoedd i wirfoddoli ar gael i unigolion gymryd rhan mewn gweithredu cymunedol ar bryderon cyffredin, gan adeiladu ar lwyddiannau, eu dathlu a'u hyrwyddo

Mae cynllunio a dylunio'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cysylltu o fewn a gerllaw datblygiadau newydd sydd yn yr arfaeth

Integreiddio a hyrwyddo'r cynnig diwylliannol yn Abertawe i feithrin diwylliant bywiog o fewn cymunedau.

Caiff iaith, treftadaeth a diwylliannau o fewn a rhwng ein cymunedau eu dathlu a'u hyrwyddo

Sut byddwn yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at lesiant



Trwy adeiladu cymunedau cryf, rydym am wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Abertawe. Bydd yr amcan hwn yn cyfrannu at y nodau llesiant trwy ganolbwyntio ar adeiladu Abertawe fwy llewyrchus, cyfartal, cyfrifol ar lefel fyd-eang, iachach, cydnerth a chydlynus sy'n dathlu ein diwylliant amrywiol a bywiog.

	Abertawe lewyrchus	Abertawe gydnerth	Abertawe iachach
Yr effaith ar y saith nod llesiant cenedlaethol	Mae cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes ar gael i bawb	Mae cymunedau'n cysylltu â'u mannau gwyrdd a glas lleol ac yn gofalu amdanynt, ac yn gweithredu ynghylch y newid yn yr hinsawdd	Mae pobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwydo'r meddwl, y corff a'r enaid
Abertawe sy'n fwy cyfartal	Abertawe o gymunedau cydlynus	Abertawe â diwylliant a Chymraeg fywiog	Abertawe sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae pawb yn gallu cael at weithgareddau hygyrch a fforddiadwy yng nghyd-destun cynnydd mewn costau byw	Mae pobl yn gallu hybu, mynegi, rhannu a gweld eu profiadau bywyd, eu hiaith a'u diwylliant	Yn sgil effaith y pandemig ar y sector diwylliannol, mae angen dull cydlynedig arnom o lawr gwlad i fyny	Mae Abertawe yn Ddinas Noddfa ac yn cynnig croeso i bawb

Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i alluogi'r nod llesiant hwn i gael ei gyflawni:

ATAL

Gweithio'n weithgar i ddathlu gwahaniaeth ac i sicrhau bod yr holl drigolion yn teimlo'u bod yn perthyn a bod ganddynt yr hyder i herio hiliaeth, rhywiaeth ac ymddygiadau amhriodol eraill

YR HIRDYMOR

Gweithio i ddeall effeithiau tueddiadau'r dyfodol ar gymunedau i'n helpu i baratoi ar gyfer Abertawe'r dyfodol yr ydym oll yn falch ohoni

CRYF

CYMUNEDAU



INTEGREIDDIO

Gweithio i ddeall yr effaith y mae pob un ohonom yn ei chael ar ein gilydd, ein cymunedau ac ar yr amgylchedd ehangach

CYDWEITHIO

Gwrando ar ein gilydd ac ymddiried yn ein gilydd, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol a chynnwys mwy o amrywiaeth o bartneriaid

CYNNWYS

Cydweithio i sicrhau ein bod yn meithrin ymddiriedaeth ac yn gwneud y mwyaf o newid cadarnhaol yn Abertawe, gan gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu atebion, lle bo'n bosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried profiad bywyd aelodau'r gymuned

Y camau gweithredu y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cymryd

Mae nodi prif yrwyr a gyrwyr eilaidd ein pedwar amcan yn ein helpu i ddangos y llwybr ar gyfer eu cyflawni a'r cyfraniad y gallwn ei wneud ar y cyd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn disgrifio'r camau gweithredu lefel uchel rydym ni'n bwriadu eu cymryd fel camau. Trwy ein profiad o gydweithio dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi dysgu bod angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar y canlynol er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- ychydig gamau, a'u gwneud yn dda
- camau a all gael eu cyflawni dim ond pan fydd dau neu fwy o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio
- camau sy'n ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn y tirlun partneriaeth sy'n bodoli ar ôl Covid
- camau y gallwn sicrhau adnoddau priodol ar eu cyfer.

I sicrhau ein bod yn llwyddiannus, mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn:

- cytuno pwy fydd yn cymryd y prif gyfrifoldeb a phwy fydd ynghlwm wrth gyflwyno pob cam
- datblygu trefniadau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fesur a'i fonitro
- cynyddu ac ehangu cyfranogiad partneriaid gweithgar ar draws sectorau
- gwella'r integreiddio a'r rhyngweithio rhwng yr amcanion.

Trwy ystyried y dysgu uchod, yn hytrach na neilltuo camau i amcanion unigol, rydym wedi penderfynu datblygu camau sydd wrth wraidd y gyfres gyfan o amcanion yn ei chyfanrwydd, i annog mwy o integreiddio. Bydd cynlluniau blynyddol manwl yn cael eu datblygu i ddangos beth rydym yn bwriadu ei wneud i ddatblygu pob cam bob blwyddyn, gan gydnabod y bydd y camau gweithredu rydym ni'n eu cymryd a'r amcanion eu hunain yn cydgysylltu ac na fydd yr un ohonynt yn llwyddiannus, o fynd ar eu trywydd yn unigol. Yn wyneb hynny, rydym wedi nodi wyth cam y byddwn yn eu cymryd ar y cyd dros y pum mlynedd nesaf:

- Trawsnewid gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ledled Abertawe
- Adeiladu ar Abertawe'n Ddinas Hawliau Dynol
- Gweithio tuag at darged sero net ac adferiad natur Abertawe
- Gwneud Abertawe yn fwy diogel, cydlynus a llewyrchus
- Datblygu cynnig diwylliannol integredig Abertawe
- Dylanwadu ar drefniadau llywodraethu eraill a chysylltu â nhw ar draws rhanbarth Bae Abertawe
- Gwella ansawdd a hygyrchedd data ar draws rhanbarth Bae Abertawe
- Datblygu trefniadau rheoli perfformiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Camau Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023-28				
Y Camau i'w cymryd	Y Tymor Byr (< 3 blynedd)	Y Tymor Canol (4-5 mlynedd)	Y Tymor Hir/Dros Genhedlaeth	
Cefnogi gweddnewid gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn Abertawe er mwyn cefnogi plant yn well i gael y dechrau gorau mewn bywyd.	Nodi prif noddwr ar gyfer y pecyn cymorth integreiddio, Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth y Blynyddoedd Cynnar, datblygu fframwaith, ac ymgysylltu rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd.	Gweithredu ar sail ymarfer myfyriol i esblygu arferion gweithio integreiddiol.	Gwreiddio ac ymestyn gweithio integredig mewn meysydd darparu eraill.	
Adeiladu ar ddatganiad 2022 Abertawe ei bod yn Ddinas Hawliau Dynol .	Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu sy'n cefnogi datgan bod Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol.	Ymgymryd â gweithgareddau a datblygu polisïau sy'n dangos ac yn galluogi pobl o bob oedran i ddeall a manteisio ar eu hawliau fel bod dynol.	Gwreiddio hyn mewn diwylliant ehangach ac adolygu cynnydd.	
Grymuso a chynnwys Abertawe mewn cydweithio tuag at bontio'n deg a chyfiawn tuag at Sero Net ac adferiad byd natur, gan fabwysiadu dull seiliedig ar fyd natur, lle y bo'n bosibl.	Ehangu ac amrywio llofnodwyr Siarter Hinsawdd a Natur Abertawe sy'n cymryd rhan mewn newid sy'n gweddnewid – trwy ddeall risg ac ymateb, meithrin capasiti a gallu, trwy rannu arfer da, arloesi, nodi, a gweithredu camau gweithredu lliniarol ac addasu cydweithredol tuag at gyflawni Sero Net Cymru a'r Datganiad Ardal ar gyfer De-orllewin Cymru.	Canolbwyntio ar wneud y mwyaf o weithredu cydweithredol a gweddnewidiol yn yr ardaloedd â'r effaith fwyaf (e.e., addasu, bioamrywiaeth, risg amgylcheddol, caffael, yr economi gylchol a'r economi sylfaenol,) gan gynnwys partneriaid, grwpiau cymunedol ac unigolion amrywiol i feithrin cydnerthedd.	Gwreiddio a pharhau i yrru ymrwymiadau Sero Net ac uchelgeisiau adferiad byd natur yn eu blaen, gan ysgogi unigolion, cymunedau a sefydliadau ar draws pob sector a'r gymuned i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan sicrhau pontio cyfiawn tuag at Sero Net.	
Gwneud y mwyaf o gyfraniad partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at wneud Abertawe yn ddiogelach, mwy cydlynus a llewyrchus .	Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag i'r bartneriaeth fwrw ymlaen â gweithredu Strategaeth Abertawe Ddiogelach; cefnogi Adfywio Abertawe a sicrhau na chaiff neb eu gadael ar ôl trwy gefnogi gweithredoedd Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe.	Darparu cymorth ac eiriolaeth ar gyfer unrhyw brosiectau heriol sydd angen cefnogaeth a nawdd ychwanegol neu fwy o gydweithio.	Gwreiddio gwaith yng ngweithgarwch busnes arferol yr holl bartneriaid.	

Camau Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023-28					
Y Camau i'w cymryd	Y Tymor Byr (< 3 blynedd)	Y Tymor Canol (4-5 mlynedd)	Y Tymor Hir/Dros Genhedlaeth		
Cefnogi datblygiad cynnig diwylliannol integredig yn Abertawe	Cefnogi a helpu datblygu'r cynnig diwylliannol, sy'n cynnwys sefydliadau, partneriaethau ac ymarferwyr o bob sector, gan gynorthwyo â hyrwyddo'r Gymraeg, cydlyniant cymunedol, iechyd a ffyniant economaidd.	Cefnogi Cynnig Diwylliannol Abertawe try annog bod diwylliant, fel y'i diffinnir yn y FGA, yn cael ei integreiddio i'r gweithgarwch cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach y mae partneriaid yn ymgymryd ag ef.	Pwysleisio a gwreiddio ystyried a defnyddio diwylliant fel mater o drefn fel arf hollbwysig yn holl weithgareddau a phrosiectau partneriaid.		
Dylanwadu ar drefniadau Ilywodraethu a phartneriaeth eraill, a chysylltu â nhw, i sicrhau bod llesiant yn cael ei integreiddio ar draws Abertawe	Sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn Abertawe yn gallu elwa o'r Asesiad o Les Lleol, amcanion cyffredin y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ffyrdd cydweithredol o weithio.	Cynyddu'r bobl sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'u hamrywiaeth, gan gynnwys ymwneud gan fwy o bobl.	Gweithio fel rhan o fframwaith partneriaeth hyblyg, wedi'i fapio a'i ddiffinio, sy'n galluogi'r penderfyniad cywir i gael ei wneud yn y man cywir, mewn ffordd integredig.		
Helpu i gryfhau penderfyniadau ar draws rhanbarth Bae Abertawe trwy wella ansawdd ac argaeledd data Gweithio gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i wella argaeledd ac ansawdd data rhanbarthol.		Gwella perthnasedd, cwmpas ac argaeledd data lleol ar gyfer yr asesiad lles nesaf, gan gynnwys profiadau bywyd.	Gall partneriaid gael at ddata perthnasol sy'n cael ei sicrhau a'i ddiweddaru'n rheolaidd, trwy symleiddio ymdrechion.		
Datblygu trefniadau rheoli perfformiad sy'n mesur ac yn monitro cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Datblygu Cynllun Gweithredu 2023-24, cerrig milltir, a mesurau canlyniadau lefel y boblogaeth 2023-28; a rhoi trefniadau monitro ar waith.	Cynnal adolygiad o berfformiad blynyddol; datblygu mesurau ansoddol; a datblygu cynlluniau gweithredu blynyddol ar sail cynnydd.	Gweithio tuag at ddemocrateiddio perfformiad trwy ymgorffori dull 360 sy'n cynnwys unigolion yn weithgar.		

Sut byddwn yn gweithredu'r camau



YR HIRDYMOR

Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe weledigaeth 2040 y mae ein mudiadau eisoes yn gogwyddo tuag ati. Mae ein ffocws ar weithredu heddiw, er mwyn elwa o allbynnau yfory a deilliannau ymhen cenhedlaeth.



CYDWEITHIO

Ein nod yw cynyddu gwaith cydweithredol a chreu perthnasoedd gwaith agosach gyda phartneriaid allweddol fel Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol. Bydd gweithgarwch ar y cyd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn parhau i ddigwydd, gan fynd i'r afael â phryderon cyffredin fel camddefnyddio sylweddau.



ATAL

Rydym yn cydnabod y bylchau yn ein gwybodaeth, yn enwedig y bylchau sy'n deillio o alwadau'r pandemig ar wasanaethau cymdeithasol, iechyd a chymorth. Rydym am ganolbwyntio ar ddileu rhwystrau rhag datblygu data fel y gallwn ddeall materion sy'n dod i'r amlwg, fel iechyd meddwl, yn well a mynd i'r afael â'r materion hynny'n well. Gellir mynd i'r afael ag agendau ataliol, fel y newid yn yr hinsawdd a thlodi, yn fwy creadigol trwy chwilio am y cysylltiadau llai amlwg ag amcanion a chamau.



INTEGREIDDIO

Rydym yn bwriadu cysylltu'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud ag uchelgeisiau cyffredin i'w gwneud yn fwy effeithiol. Er enghraifft, mae data'r cyfrifiad diweddar yn awgrymu bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe wedi gostwng 0.2%. Er bod y gostyngiad hwn yn fwy ar draws Cymru, rydym yn bwriadu dod ynghyd a phenderfynu sut i weithredu ar y cyd i gydlynu ein hymdrechion i gefnogi Cymraeg 2050 (strategaeth sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050).



CYNNWYS

Nod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yw canolbwyntio ar gynnwys ein cymunedau a'n dinasyddion yn fwy rhagweithiol wrth ddylunio a chymryd rhan mewn prosiectau. Lle y bo'n bosibl, ein nod yw archwilio dulliau cydgynhyrchiol a ffyrdd newydd o gyfathrebu â phobl a grwpiau cymunedol.

Atodiad I - Creu'r Cysylltiadau

Er bod pob amcan yn canolbwyntio ar flaenoriaeth benodol, fel y mae ein diagramau yn dangos, mae sawl maes sy'n gorgyffwrdd. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod pawb yn cyfrannu at yr holl amcanion, nid dim ond y rhai lle y caiff ein gwaith yr effaith fwyaf. Hyd yn oed pan fydd y posibilrwydd o weithredu yn gymharol fach, pan fyddwn yn mynd i'r afael â phobl amcan ar y cyd, gall yr effaith fod yn drawsnewidiol. Mae'r siart isod yn amlinellu rôl pob amcan wrth gyflawni'r camau.

Y Camau byddwn ni'n eu cymryd (Atebolrwydd a'r graddau y mae'r camau'n cael eu cymhwyso gan bob Grŵp Cyflawni Amcan)	Y BLYNYDDOEDD CYNNAR	BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA WELL	Y NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFERIAD BYD NATUR	CYMUNEDAU CRYF
Gweddnewid gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar	Arwain	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi
Dinas Hawliau Dynol	Cefnogi	Arwain	Cefnogi	Cefnogi
Abertawe Sero Net ac adferiad byd natur	Cefnogi	Cefnogi	Arwain	Cefnogi
Abertawe ddiogelach, gydlynus, lewyrchus	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi	Arwain
Cynnig diwylliannol integredig	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi	Arwain
Dylanwadu ar drefniadau Ilywodraethu a chysylltu â nhw	Ystyried	Ystyried	Ystyried	Ystyried
Datblygu data	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi
Trefniadau rheoli perfformiad	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi	Cefnogi

Bydd Cynllun Gweithredu manwl yn amlinellu sut byddwn yn gweithredu'r camau i gyflawni ein hamcanion. Bydd y Cynlluniau Gweithredu hyn, a adolygir yn flynyddol, yn cael eu datblygu'n ailadroddus, gan ddefnyddio dewislen o gamau a nodir trwy ymgysylltu a diagramau ein gyrwyr. Bydd yr holl gamau gweithredu'n cael eu hasesu yn erbyn meini prawf sydd wedi'u seilio ar wersi a ddysgwyd a/neu offer gwerthuso ymgysylltu.

Atodiad II Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn bartneriaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella gwasanaethau lleol ac mae'n cynnwys partneriaid statudol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA), Cyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a;

- Tîm lechyd Cyhoeddus Lleol BIPBA
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Canolfan Byd Gwaith
- Fforwm Busnes Rhanbarthol
- Partneriaeth Abertawe Ddiogelach
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Fforwm y Bartneriaeth Tlodi
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Adfywio Abertawe
- Fforwm Amgylcheddol Abertawe
- Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
- Prifysgol Abertawe
- · Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned a Thref
- Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Mae'n ofyniad cyfreithiol fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan bob ardal cyngor lleol yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu'r gofyniad hwn.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyrff Cyhoeddus yn cydweithio tuag at saith nod llesiant cyffredin a phum ffordd o weithio, i wneud yn siŵr eu bod yn cyfrif am y canlynol wrth wneud penderfyniadau:

- yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywyd yng Nghymru yn y dyfodol
- sut i weithio'n well gyda phobl a chymunedau, a'i gilydd
- sut i atal problemau a gweithredu'n fwy unedig yn lleol ac yn rhanbarthol.

Bwriedir i'r Cynllun Llesiant Lleol ymwneud â gweithredu cyfunol Partneriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chraffu yn sicrhau bod camau ar waith i fonitro bod y Cynllun yn cyflawni ei amcanion ar gyfer Abertawe a Chymru.

Atodiad III: Sut mae'r cynllun wedi datblygu

Dechreuodd ein proses gynnwys yn 2016 trwy ofyn i unigolion, plant, staff, rheolwyr, arweinwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac arbenigwyr ddychmygu'r Abertawe roeddent yn dymuno ei gweld yn 2040 a nododd dueddiadau allweddol a fyddai'n effeithio ar y dyfodol hwn. Mae'r ymagwedd hirdymor hon wrth wraidd datblygiad ein Cynllun Llesiant Lleol.

POBLOGAETH	Y NEWID YN YR HINSAWDD	YR ECONOMI A SEILWAITH	CYMDEITHAS A DIWYLLIANT	IECHYD	Y DEFNYDD O DIR AC ADNODDAU NATURIOL
 Poblogaeth sy'n heneiddio Tai Mudo Mewnfudo Gweithlu hŷn Cyfansoddiad aelwydydd Poblogaeth myfyrwyr Cynnydd yn y boblogaeth plant 	 Patrymau'r tywydd Tywydd eithafol Bioamrywiaeth Ansawdd dŵr ac	 Cynnydd mewn prisiau Bwlch mewn sgiliau Cyni Globaleiddio Dad-ddiwydiannu Mabwysiadu TG yn gynyddol Technolegau craff Trafnidiaeth Cadwyni cyflenwi 	 Tlodi Difaterwch Diffyg ffydd / grymuso Erydu cydlyniant cymunedol BREXIT Mwy o anghydraddoldebau Diogelwch cymunedol Y Gymraeg 	 Marwolaethau'n gysylltiedig â gwres Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod Galw Ffyrdd o fyw E iechyd Y Gymraeg lechyd meddwl Gofal yr henoed Ymwrthedd i gyffuriau Y cyfryngau cymdeithasol 	 Ynni Diogelwch bwyd Ffermio a'r defnydd o dir Adnoddau y mae pen draw arnynt Gwastraff Allyriadau / Llygryddion Cydnerthedd ecosystemau Ansawdd pridd Bioamrywiaeth

Seiliwyd ein hymagwedd at gynnwys ac ymgysylltu ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a bwriadwyd iddo ddechrau gyda dalen wag ac ymgysylltu, ailymgysylltu, ac wedyn ymgynghori'n ffurfiol â'n rhanddeiliaid, gan hidlo'r blaenoriaethau cyfunol i'w gweithredu yn amcanion. Golygai hyn y gallai syniadau gael eu mireinio'n amcanion gyda chefnogaeth pawb a lleisiau pawb yn cael eu clywed ym mhob cam o'r broses.

Wrth ymchwilio i'n Hasesiad o Les Lleol 2022, canfuom fod pryderon yn y meysydd canlynol yn allweddol.

CYMDEITHASOL

- Anghydraddoldeb cynyddol a chostau byw cynyddol
- · lechyd meddwl
- Poblogaeth sy'n heneiddio a thrafferthion gweithlu gofal cymdeithasol
- · Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus
- Allgau Digidol
- Effaith y pandemig ar grwpiau penodol, e.e. y blynyddoedd cynnar, pobl hŷn, pobl BAME a phobl ag anableddau
- Troseddu, diogelwch cymunedol a chydlyniant cymunedol
- Camddefnyddio sylweddau.

AMGYLCHEDDOL

- Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Colli bioamrywiaeth, dirywiad yng nghydnerthedd ecosystemau
- Angen mwy o adnoddau ar gyfer rheolaeth hirdymor
- Adnoddau dŵr o dan bwysau cynyddol
- Risg gynyddol llifogydd yn effeithio ar bobl, eiddo, gwasanaethau a seilwaith
- Cystadleuaeth rhwng priddoedd, y defnydd ar dir a chynhyrchu bwyd
- · Seilwaith gwyrdd a Chreu Lleoedd
- · Effeithiau ansawdd aer ar iechyd
- Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol
- Cynhyrchi Ynni a defnyddio/effeithlonrwydd ynni
- Annhegwch y budd i adnoddau naturiol a'r budd o adnoddau naturiol, ac amlygiad i risgiau amgylcheddol.

ECONOMAIDD


- Cynhyrchiant a gwerth ychwanegol gros
- Arallgyfeirio, twf a goroesiad busnesau
- · Lefelau incwm aelwydydd
- · Bwlch hyfywedd datblygu seilwaith economaidd
- Seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy
- · Ardaloedd o amddifadedd ac anweithgarwch economaidd
- Y bwlch yng nghyrhaeddiad sgiliau ymhlith pobl ddifreintiedig
- Prinder sgiliau digidol a sgiliau gwyrdd
- Prinderau gweithwyr: gofal, adeiladu, lletygarwch.

DIWYLLIANT

- Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol
- Yr angen am raglen gytbwys o weithgareddau fforddiadwy lleol i bawb, gan dargedu grwpiau agored i niwed/nodweddion gwarchodedig
- Adferiad y sector twristiaeth ar ôl y pandemig
- Anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol sy'n effeithio ar iechyd ar draws ardaloedd
- Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg a'r galw o ganlyniad am wasanaethau Cymraeg
- Cefnogi cynaliadwyedd gwirfoddoli.

I weld yr Asesiad o Les Lleol a'r Crynodeb: www.swansea.gov.uk/psbassessment

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, grwpiau ac amrywiaeth o bobl Abertawe i ddatblygu cynllun sy'n canolbwyntio ar gymryd camau (yn enwedig yn y meysydd a amlygwyd trwy'r Asesiad) i fodloni ein hamcanion llesiant lleol 2040 wedi'u diweddaru.



Yn ogystal â gwybodaeth o'r Asesiad o Les Lleol, mae Abertawe wedi ystyried y canlynol i wneud yn siŵr bod ein Cynllun Llesiant Lleol y gorau y gall fod:

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2022	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg	Beth mae'n rhaid i ni ei wneud yn ôl y gyfraith (dyletswyddau statudol)	Hawliau pawb
 Dyma adroddiad a ysgrifennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n edrych ar dueddiadau yng Nghymru ac mae'n dangos: Bod y boblogaeth yn heneiddio er bod y twf yn y boblogaeth yn arafu, a thwf y Gymraeg Galw cynyddol am wasanaethau sector cyhoeddus, gofal a digidol Anghydraddoldeb yn ehangu, gostyngiad mewn lefelau diweithdra'n cael ei deimlo'n anghyson, cynnydd araf o ran lleihau tlodi Newidiadau mewn proffiliau iechyd Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cyflymu, gyda risg wedi'i dosbarthu'n anghyson Defnydd cynyddol ac allyriadau cynyddol Colli rhywogaethau a llai o wydnwch gan ecosystemau Mwy o ddigideiddio a Deallusrwydd Artiffisial, y newid yn natur gwaith, mwy o risg i seiberddiogelwch 	Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe'n gweithio'n agos gyda rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol Gorllewin Morgannwg. Mae'r bartneriaeth ranbarthol hon yn cyflawni ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi llywio datblygiad yr Asesiad o'r Boblogaeth a'r Cynllun Ardal diwethaf. Mae'r Asesiad o'r Boblogaeth 2022 i'w weld yn: www.westglamorgan.org.uk Mae Cynllun Ardal 2018 i'w weld yn: http://www.westernbay.org.uk/ cynllun-ardal/?lang=cy	 Mae'r Ddeddf yn rhoi'r dewis i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddod ag amrywiaeth o gynlluniau ynghyd sy'n amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud mewn meysydd penodol. Dyma'r cynlluniau hyn: Cynllun y Bartneriaeth Troseddu ac Anrhefn, Gostwng Troseddu a Chamddefnyddio Sylweddau Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cynllun Ardal Gorllewin Morgannwg Y Cynllun Rhan 1 'Gwasanaethau Cymorth lechyd Meddwl Sylfaenol Lleol' y cytunwyd ar y cyd arno gan y Bwrdd lechyd Lleol a 3 awdurdod lleol o dan adran 2 Mesur lechyd Meddwl 2010. Y Cynllun Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mai'r ffordd orau o weithio ar y meysydd penodol hyn oedd cael cynlluniau ar wahân. Bydd y Cynllun Llesiant yn eu cefnogi ac yn ychwanegu gwerth atynt. 	Mae gan bawb hawliau. Amlinellir yr hawliau hyn yn Natganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. Rydym am barchu hawliau pobl a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u llesiant. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod amrywiaeth o bobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu llesiant. Mae gan blant hawliau penodol sydd wedi'u hamlinellu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yng Nghymru, mae'n rhaid i ni ddangos beth rydym yn ei wneud i wrando ar blant a phobl ifanc. Yn Abertawe, mae ymrwymiad clir a chytunedig i gynorthwyo plant i fwynhau eu hawliau.

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Darllenwch Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar **www.futuregenerations2020.wales**. Mae'r argymhellion sy'n cael eu blaenoriaethu a'u hadlewyrchu yn y cynllun hwn yn cynnwys:

Y NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFERIAD BYD NATUR

- Datgan argyfwng natur a hinsawdd a chyflymu graddfa a hynt newid yn sylweddol i helpu mynd i'r afael â'r heriau hyn.
- Buddsoddi mewn mannau gwyrdd a glas bioamrywiol, a rhoi pwys ar y rôl bwysig y mae'r mannau hyn yn ei chwarae wrth gefnogi iechyd pobl a llesiant cymunedol.
- Ystyried gweithredu a gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd gyda'n gilydd.
- Datblygu eich gwybodaeth am natur a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol, iach, a pharatoi pobl â sgiliau sy'n addas at y dyfodol.

CYMUNEDAU CRYF

- Sicrhau bod amcanion yn ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau yng nghyd-destun yr holl nodau llesiant – nid dim ond canolbwyntio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol.
- Cynorthwyo cymunedau i fod â chysylltiadau da a bod yn fan lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel.
- Defnyddio'r perthnasoedd rydych chi wedi'u datblygu i gydweithio'n well i gynllunio, paratoi a symud gweithgareddau ac adnoddau tuag at atal; i helpu mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cynorthwyo pobl i ymhél â diwylliant yn eu bywyd gwaith a hamdden dyddiol a sicrhau'r gorau o'n gweithwyr proffesiynol diwylliannol.

- Galluogi ein dinasyddion i gael at eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, ac ymhél â'r rhain.
- Gwneud y mwyaf o asedau lleol fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, lleoliadau.

BYW'N DDA, HENEIDDIO'N DDA

- Canolbwyntio ar atal anghydraddoldebau, gan gynnwys trwy addysg a harneisio sgiliau a chydnerthedd pobl sydd â phrofiad bywyd o broblemau perthnasol.
- Chwarae eu rhan i sicrhau bod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.
- Gwneud mwy o ymdrech ar y cyd i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus yng Nghymru.
- Ceisio lleihau anghydraddoldebau trwy gynnwys pobl yn y 'stori y tu ôl i'r data' a chydweithredu ag eraill.

Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

- Bod yn barod i ddiwygio gwasanaethau presennol yn sylfaenol.
- Edrych ar y system gyfan a newid cystadleuaeth am dosturi dylai ymyriadau fod yn delio â'r person, nid y broblem benodol.
- Chwalu'r rhwystrau rhwng proffesiynau, cyrff cyhoeddus a chymunedau er mwyn caniatáu am gydweithredu ac integreiddio.

Geirfa

Bioamrywiaeth: Amrywiaeth y planhigion a'r anifeiliaid ar y ddaear. Mae'n cynnwys yr holl rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, a'r systemau naturiol sy'n eu cynnal.

Cydnerthedd personol a chymuned: pa mor dda y gall unigolyn neu gymuned ymateb yn gadarnhaol i sefyllfa anodd neu negyddol, ei wrthsefyll a dod drosto.

Amddifadedd: y diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas i ateb anghenion sylfaenol.

Cymdogaethau amddifad: ardal ddaearyddol lle mae crynodiad o bobl sy'n profi amddifadedd.

Allgau'n ddigidol: mynediad neu sgiliau anghyfartal ar gyfer defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Cyfoethog yn ecolegol: ardal ddaearyddol sy'n cefnogi amrywiaeth eang o blanhigion a/neu anifeiliaid.

Gwasanaethau ecosystemau: Y buddion gaiff pobl o ecosystemau. Mae'r rhain yn cynnwys bwyd a dŵr; gwasanaethau rheoleiddio fel rheoli llifogydd a chlefydau; gwasanaethau diwylliannol fel buddion ysbrydol, diwylliannol a buddion hamdden; a chefnogi prosesau naturiol sy'n cynnal yr amodau ar gyfer bywyd ar y Ddaear.

Ansawdd amgylcheddol: cyflwr yr amgylchedd naturiol (tir, aer a dŵr) a sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio arno, h.y. llygredd.

Seilwaith gwyrdd: man gwyrdd naturiol a gwneud o ansawdd da, gan gynnwys coetiroedd, gwlypdiroedd, dŵr agored a rhedegog, glannau afon, parciau a gerddi, rhandiroedd, mynwentydd eglwysi, gofod hamdden, toeon gwyrdd.

Dinasoedd lach: Rhwydwaith dysgu rhyngwladol dan arweiniad Sefydliad lechyd y Byd sy'n 'mynnu cefnogaeth wleidyddol leol i gyflawni newid' er mwyn gwella iechyd i bawb. Abertawe yw'r unig 'Ddinas lach' ddynodedig yng Nghymru ar hyn o bryd.

Dinasoedd Rhyngddiwylliannol: Mae rhaglen Dinasoedd Rhyngddiwylliannol Cyngor Ewrop yn cynorthwyo dinasoedd i adolygu eu polisïau trwy sbectol rhyngddiwylliannol a datblygu strategaethau i'w helpu i reoli amrywiaeth yn gadarnhaol a gwireddu mantais amrywiaeth.

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif: Ymagwedd pan fydd gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus yn manteisio ar bob cyfle i roi cyngor byr i wella iechyd a llesiant.

Adolygiad Marmot: adolygiad annibynnol o anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr a gyhoeddwyd yn 2010 (**www.ucl.ac.uk/marmotreview**). Fe wnaeth yr Adolygiad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Michael Marmot, gynnwys ffocws ar ymyriadau'r Blynyddoedd Cynnar i anghydraddoldebau iechyd. Yn benodol, awgrymodd Adroddiad Marmot fod angen:

- Ileihau anghydraddoldebau yn natblygiad cynnar iechyd corfforol ac emosiynol a sgiliau gwybyddol, ieithyddol a chymdeithasol
- sicrhau gwasanaethau mamolaeth, rhaglenni magu plant, gofal plant ac addysg y Blynyddoedd Cynnar o ansawdd uchel i bawb
- meithrin cydnerthedd a llesiant pob plentyn ifanc.

Safon Isafswm Incwm: Mae hwn yn nodi beth sy'n isafswm safon byw derbyniol bob blwyddyn, ym marn y cyhoedd. Mae'n cynnwys, ond mae'n fwy na dim ond bwyd, dillad a lloches. Mae'n ymwneud â chael yr hyn y mae ei angen arnoch er mwyn cael y cyfleoedd a'r dewisiadau y mae eu hangen i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Amlddisgyblaethol: nifer o arbenigwyr, neu bobl o broffesiynau gwahanol, yn gweithio gyda'i gilydd.

Geirfa

Amgylchedd naturiol: y byd naturiol (nid gwneud) y mae planhigyn neu anifail yn byw ynddo.

Poblogaeth: y bobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe.

Premiwm tlodi: y swm ychwanegol y mae'n rhaid i aelwydydd ag incwm isel ei dalu am yr un nwyddau a gwasanaethau hanfodol; credyd, tanwydd, bwyd a thrafnidiaeth. Er enghraifft, mae cost tanwydd fesul uned trwy fesurydd rhagdalu yn ddrutach na gyda gostyngiad Debyd Uniongyrchol ar-lein. Hefyd, defnyddir mwy o danwydd mewn aelwydydd ag inswleiddio gwael a theclynnau aneffeithlon. Mae bwyd o siopau lleol, llai yn ddrutach nag o siopau mwy nad allwch eu cyrraedd heb gar.

Amcanion: neu nodau, yw'r nodau y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am eu cyflawni i wella lles pobl yn Abertawe.

Presgripsiynu cymdeithasol: mae'n galluogi meddygon a nyrsys i atgyfeirio cleifion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol i amrywiaeth o wasanaethau anghlinigol lleol, sy'n cael eu darparu'n aml gan y sector gwirfoddol a chymunedol

Amgylchedd trefol: ardaloedd gwneud h.y. trefi, amgylcheddau trefol.

Agored i niwed: Mae person yn agored i niwed os na all ofalu am ei hun neu amddiffyn ei hun rhag niwed neu gam-fanteisio arno, o ganlyniad i sefyllfa neu amgylchiadau.

Cyfeiriadau

- Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf Papur y 1000 Diwrnod Cyntaf Cytundeb Partneriaeth.pdf (swansea.gov.uk)
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/
- Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe www.abertawe.gov.uk/CynllunCyflawniEconomaiddRhanbarthol
- Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe www.abertawe.gov.uk/AdfywioAbertawe
- Asesiad o Les Lleol www.abertawe.gov.uk/PSBassessment
- Asesiad o'r Boblogaeth www.westglamorgan.org.uk/?lang=cy
- Cynllun Ardal Leol www.westernbay.org.uk/cynllun-ardal/?lang=cy
- Adolygiad Marmot www.ucl.ac.uk/marmotreview
- Cynllun Heddlu a Throseddu https://www.southwalescommissioner.org.uk/cy/eichcomisiynydd/cynllun-heddlu-a-throseddu-2022-2026/
- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol www.futuregenerations2020.wales
- Amser am Newid: Tlodi yng Nghymru Archwilio Cymru https://audit.wales/cy/publication/amser-am-newid-tlodiyng-nghymru
- Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/ anghydraddoldeb-yng-nghymrur-dyfodol/













